

## CYNGOR CYMUNED LLANWENOG COMMUNITY COUNCIL

Neuadd y Pentref, Drefach am 7.30yh 12fed o Fai 2015

**Yn bresennol / Present:** Cyng Geraint Hatcher, Cyng Euros Davies, Cyng Alun James Cyng Geraint Davies, Cyng Helen Howells, Cyng Daniel Evans

**Ymddiheiriadau/ Apologise:** Cyng Lewis Davies, Cyng. Gwilym Jenkins, Cyng Daff Davies

### **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol / Annual General Meeting**

#### Ethol Cadeirydd 2015-2016 / Elect Chairman 2015-2016

Cynigwyd enw'r Cyng Geraint Davies gan y Cyng Alun James ac eiliwyd gan y Cyng Geraint Hatcher. Derbyniodd y Cyng Geraint Davies y swydd a cymerwyd y gadair ganddo. Diolchodd y Cyn-gadeirydd y Cyng Geraint Hatcher i bawb am eu cefnogaeth yn ystod y ddwy flynedd diwethaf. Diolchodd y Cyng Geraint Davies i'r cyn-gadeirydd am gadeirio'r cyfarfodydd yn ei ffordd ddi-hafal ei hunan ac mewn amgylchiadau digon anodd ar adegau. Cllr Geraint Davies' name was proposed by Cllr Alun James and seconded by Cllr Geraint Hatcher. Cllr Geraint Davies accepted the post and took to the chair. Cllr Geraint Hatcher, the past chairman thanked everyone for their support during the past two years. Cllr Geraint Davies thanked the past-chairman for chairing the meetings in such a professional manner and in difficult circumstances on occasions.

#### Ethol Is-gadeirydd 2015-2016 / Elect Vice-Chairman 2015-2016

Cynigwyd enw'r Cyng Daniel Evans gan y Cyng Alun James ac eiliwyd gan y Cyng Helen Howells. Derbyniodd y Cyng Daniel Evans y swydd. Cllr Daniel Evans' name was proposed by Cllr Alun James and seconded by Cllr Helen Howells. Cllr Daniel Evans accepted the post.

#### Cyfrfion y Cyngor Cymuned / Community Council Accounts

Darllenwyd adborth yr arolygydd mewnol a nodwyd bod angen i'r Cyngor Cymuned wneud asesiad risg, a chreu dogfen Rheoliadau Ariannol a dogfen Rheolau Sefydlog. Nodwyd hefyd y dylsai'r Cyngor Cymuned cael gwerth 3 mis o arian y cyngor am y flwyddyn wrth gefn ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Dylsai'r Cyngor Cymuned hefyd adolygu'r gyllideb am y flwyddyn bob chwarter. The internal auditors assessment were read and it was noted that the Community Council need to carry out a risk assessment and create a Financial Regulations document and a Standing Order document. It was also noted that the Community Council requires 3 months worth of their annual budget as reserves at the end of the financial year. The Community Council will also need to review the budget for the year on a quarterly basis.

#### Dogfen Aseiad Risg y Cyngor / Council's Risk Assessment

Roedd y Clerc wedi drafftio asesiad risg ar gyfer y Cyngor Cymuned am y flwyddyn sydd i ddod, derbyniwyd hyn gan y Cyngor Cymuned ac mi fydd yn cael ei ddanfôn gyda'r cyfrfion i'r arolygydd allanol sef y BDO. The Clerk had drafted a risk assessment document for the Community Council for the forthcoming year and it was accepted by the Community Council. It will be sent to the external auditor, the BDO.

**Cyfarfod y Cyngor Cymuned Mis Mai / May Community Council Meeting**

1	<p><b><u>Datgelu Buddianau Personol/Declare Personal Interests</u></b>  Nid oedd neb yn datgelu buddiant personol. Nobody declared a personal interest.</p>
2	<p><b><u>Cadarnhau'r Cofnodion / Agree Minutes</u></b>  Cafwyd cofnodion cyfarfod mis Ebrill yn gywir gan y Cyng. Geraint Hatcher ac fe'i eiliwyd gan y Cyng. Daniel Evans. The April minutes were proposed as a true record by Cllr Geraint Hatcher and seconded by Cllr Daniel Evans.</p>
3.	<p><b><u>Materion yn Codi – Matters Arising</u></b></p>
a.	<p>Taith Dros Fywyd 26/4/2015 Walk for Life: Trefnwyd taith lwyddiannus dros ben gyda dros £760 o bunnoedd wedi ei dderbyn. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyng Geraint Hatcher am drefnu'r daith ac i Dafarn Cefn-Hafod am y Cawl ac i'r Cyng Mary Thomas am y cacennau bach. A successful walk was arranged with over £760 of sponsorship money received. The Chairman thanked Cllr Geraint Hatcher for organising the walk and to Cefn-Hafod for the Cawl and Cllr Mary Thomas for the cakes.</p>
b.	<p>Cinio'r Cyngor Cymuned 24/4/2015 – Cafwyd noson hwylus a bwyd da yn Nhafarn Ffostrasol. An enjoyable evening was had with good food at Ffostrasol Arms.</p>
c.	<p>Superfast Cymru – Fe wnaeth y Cyng Geraint Davies ddiweddarau'r pwyllgor ar y Superfast Broadband gan ddweud nad yw ardal Gorsgoch na llinell o Frynteg i Gwmsychbant wedi eu cysylltu eto ond y bydd yn dod gydag amser. Cllr Geraint Davies updated the committee on the Superfast Broadband by saying that Gorsgoch and the line between Brynteg and Cwmsychbant are yet to be connected but it will come with time.</p>
d.	<p>Cae ger mynedfa Cefnrhuddlan Ganol / Field by the entrance to Cefnrhuddlan Ganol. Roedd Swyddog Gorfodaeth y cyngor wedi ymweld a'r safle ac wedi siarad gyda perchenog y ddaear. Mae'r ymchwiliad nawr yn mynd yn ei flaen ac yn edrych ar y garafan a'r sied. Roedd y Cyng Euros Davies wedi cysylltu gyda'r heddlu ac nid oedd yna unrhyw fater i fecso amdan. The Council's Enforcement Officer had visited the site and had spoken to the owner. The investigation is now progressing and looks at the caravan and the shed. Cllr Euros Davies had been in contact with the police and there was nothing to worry about.</p>
e.	<p>Barriers Cae Chwarae Drefach Playing Field Barriers – Roedd y Cyng Geraint Hatcher wedi edrych ar y niwed ac yn dweud y bydd yn gwneud y gwaith heb unrhyw gost i'r Cyngor Cymuned. Cllr Geraint Hatcher has assessed the damage and will undertake the work without any charge to the Community Council.</p>
f.	<p>Panel Ciosg Drefach Kiosk Panel- Roedd y Cyng Geraint Hatcher wedi archwilio'r safle ac mi fyd angen panel Perspex newydd ac mi fydd yn gwneud y gwaith hyn pan fydd amser yn caniatáu ac mi fydd y Cyngor Cymuned yn talu am y gwaith. Cllr Geraint Hatcher had inspected the site and a new Perspex pane is required and he will undertake the work when</p>

	<p>time prevails and the Community Council will pay for the work.</p> <p>g. <b>Safoni Enwau Lleoedd – Sandardizing Place Names</b>  Roedd y Comisynydd Iaith yn cynnig newid enwau'r pentrefi canlynol o fewn y plwyf i'w ffurf cywir o ran gramadeg, nid oedd y Cyngor Cymuned yn cytuno gyda'r newidiadau ac yn dweud bod y ffurfiau presonol wedi ei mabwysiadu gan Gymry Cymraeg y Plwyf ac yn rhan o'n hanes ac o draddodiad. Roedd y newidiadau i Rhuddlan a Chwmsychbant wedi eu derbyn. The Language Commissioner has proposed to change the following village names within the Parish to their correct grammatical form, however the Community Council disagree with the changes saying that their existing form have been adopted by Welsh people of the Parish and are a part of our history and tradition. The changes to Rhuddlan and Cwmsychbant were accepted.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Drefach – Dre-fach</li> <li>• Brynteg – Bryn-teg</li> <li>• Gorsgoch – Gors-goch</li> <li>• Rhyddlan – Rhuddlan</li> <li>• Cwmsychpant – Cwmsychbant</li> </ul> <p>Nid oedd newidiadau i bentrefi Llanwenog, Cwrtnewydd, Highmead/Y Dolau ac Alltyblaca. There were no changes to the villages of Llanwenog, Cwrtnewydd, Highmead/Y Dolau and Alltyblaca.</p>
4	<p><b><u>Gohebiaeth</u></b></p> <p>a. Cylchgrawn Y Llais / One Voice Wales Magazine – Cylchredwyd/Circulated</p> <p>b. Sgwrs Iach GIG Cymru / Let's Talk Health NHS – Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau mewn cymunedau yng Ngheredigion i ddarganfod mwy am wasanaethau iechyd lleol a rhannu barn pobl a chydweithio. Hywel Dda Health Board are holding a series of events in communities in Ceredigion to find out more about local health services and share people's views to work together.</p> <p>c. Cymdogion Cynnes – Cylchredwyd y diweddariad ar y ddogfen hon gan roi mwy o wybodaeth i bobl am syndicadau olew a bargeinion tanwydd, penderfynwyd ei roi ar wefan y Cyngor Cymuned. The updated documents was circulated which provides more information about the oil syndicated and better fuel deals, it was decided to put the link on the Community Council's website.</p> <p>d. Ymgynghoriad ar Amcanion y Cynllun Gwella 2015-2016 / Improvement Plan Objectives Consultation 2015-2016.</p>
5.	<p><b><u>Taliadau a Ceisiadau am Arian / Payments and Requests</u></b></p> <p>a. Yswiriant AON Insurance - £384.38</p> <p>b. Lyn Llewellyn Internal Audit Service - £130.00</p>

<p>c.</p> <p>d.</p> <p>e.</p> <p>f.</p>	<p>Stampiau/Stamps - £117.00</p> <p>Cafodd taliadau a-c eu cynnig gan y Cyng Alun James a’u eilio gan y Cyng Geraint Hatcher. Payments a-c were proposed by Cllr Alun James and seconded by Cllr Geraint Hatcher.</p> <p>Cymdeithas Hanes Llambod / Lampeter History Society – Penderfynwyd peidio â chefnogi’r gymdeithas yn ariannol ond drwy lythyr o gefnogaeth oherwydd sefyllfa ariannol y Cyngor Cymuned eleni a theimlwyd bod ffynhonnau eraill o arian y gall y gymdeithas hon dderbyn arian ohono. It was decided not to support the Society financially this year but rather through a letter of support because of the Community Council’s financial situation this year and it was also felt that there are other avenues where this society can access funding from.</p> <p>Ysgrifennwyd y siec ar gyfer Neuadd Gorsgoch am y swm o £500.00 a gytunwyd ddechrau’r flwyddyn. The cheque for Gorsgoch Hall for the sum of £500.00 was written which was agreed at the beginning of the year.</p> <p>Cynigodd y Cyng Helen Howells bod y Cyngor Cymuned yn neilltuo ychydig o arian i gronfa ar gyfer pobl sydd am deithio a sefydlu Ysgoloriaeth Teithio. Mi fyddai’r Clerc yn edrych i weld a fyddai hyn yn bosib. Cllr Helen Howells suggested that the Community Council allocate a sum of money to a fund for those who want to travel and set up a Travelling Scholarship. The Clerk would look at whether it would be possible to do this.</p>
<p>6.</p> <p>a.</p> <p>b.</p> <p>c.</p> <p>d.</p> <p>e.</p> <p>f.</p>	<p><b><u>Ceisiadau Cynllunio/ Planning Applications</u></b></p> <p>A150207 - Tancoed, Drefach – Erection of an extension – No objection</p> <p>A150270 – Llainteg, Blaencwrt, Llanwnnen - Erection of garage and general purpose workshop – No objection</p> <p>A140754 – Ffrwd, Llanwnnen – Application to appear before the Planning Committee on the 13<sup>th</sup> May 2015 following a Site Inspection Panel.</p> <p>A150220 – Plot adj Cartref, Drefach – Erection of a dwelling (Outline) – No objection</p> <p>A150160 – Land at Caeronnen, Penffordd – Installation of a single wind turbine 36.6m to tip (Invalid) – Currently invalid therefore cannot comment.</p> <p>A140171 – Pen Pom Pren, Drefach, Formation of field access for agricultural purposes APPROVED</p>
<p>7.</p> <p>a.</p> <p>b.</p>	<p><b><u>Unrhyw Fater Arall /Any other business</u></b></p> <p><b>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf/Date and time of next meeting</b></p> <p>Penderfynwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 2il o Fehefin am 7.30yh yn Neuadd Bentref Drefach. It was decided to hold the next meeting on the 2<sup>nd</sup> June at 7.30pm at Drefach Village Hall.</p> <p>Dywedodd y Cyng Euros Davies bod cais cynllunio’r ysgol ar stop ar hyn o bryd</p>

	<p>nes bod asesiad llifogydd yn cael ei wneud ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Cllr Euros Davies noted that the planning application for the school is on hold at present due to the need for a Flood Consequence Assessment for Natural Resources Wales.</p>
b.	<p>Llongyfarchwyd y Cyngorydd Sir Euros Davies ar ddod yn ddadcu am y tro cyntaf. Congratulations were extended to the County Councillor Euros Davies on becoming a grandfather for the first time.</p>